# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 28AIN IONAWR, 2021**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd Jones**

**NatalieLloydJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 20 Ionawr 2021)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams
Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams
Eric M. Jones
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 12 o Dachwedd 2020 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD AR GYNLLUN ARFOR** 8 - 10

I roi diweddariad i’r pwyllgor ar gynllun Arfor.
Awdur: Annwen Davies.

**6. ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG** 11 - 31

I gyflwyno Adroddiad Adolygu Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) i’r pwyllgor.
Awdur: Debbie Anne Williams Jones.

**7. CWYNION** 32 - 34

I hysbusu’r pwyllgor am unrhyw gwyion.
Awdur: Gwenllian Williams.

**PWYLLGOR IAITH 12 TACHWEDD 2020**

**YN BRESENNOL**

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Aled Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, Cai Larsen, Eirwyn Williams ac Elfed Williams

**SWYDDOGION:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth a Iaith), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllïan Mair Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gweithle), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Llio Mai Hughes (Swyddog Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol) ac Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

**<u>Yn bresennol ar gyfer eitem 7:</u>**

Bet Huws (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd)
Ifan Llywelyn (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd)
Dylan Bryn (Swyddog Canolfan Datblygu Iaith)

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Elin Walker Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2020/21**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD ail ethol y Cynghorydd Cai Larsen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y cyfnod 2020/21**

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd John Pughe Roberts

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **MATERION BRYS**

   Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

6. **COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar yr 20fed o Hydref 2020 fel rhai cywir.

**7. TROSOLWG O EFFAITH COVID 19 AR WASANAETHAU A GWEITHGAREDDAU A GYNHELIR TRWY'R GYMRAEG**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Ymarferydd Iaith a Chraffu yn crynhoi'r cyfleoedd a'r heriau mae adrannau amrywiol wedi eu hwynebu o ran parhau i weithredu'r polisi iaith yn sgil Covid 19. Cyflwynwyd hefyd ddiweddariad ar brosiectau amrywiol sydd wedi eu cyflawni er gwaetha'r sefyllfa, er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd.

Adroddwyd, yn gyffredinol bod pawb yn nodi nad oedd y feirws wedi amharu ar eu gallu i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg gan eu bod wedi addasu eu ffordd o ddarparu gwasanaeth a pharhau i gynnig gwasanaethau trwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, amlygwyd rhai bod posibilrwydd o ddiffyg cyfle anffurfiol i sgwrsio yn y Gymraeg mewn swyddfa, ar y coridor neu yn y gegin, yn arbennig y rhai sydd ddim yn cael cyfle i siarad Cymraeg llawer tu allan i'r gwaith. Mewn ymateb, nodwyd bod y Cynllun Cyfeillion Cymraeg yn cynnig y cyfleoedd anffurfiol hynny i ddysgwyr allu cadw'r momentwm wrth weithio gartref ynghyd a sesiynau ychwanegol o hyfforddiant ar-lein sydd wedi bod yn gadarnhaol.

Amlygwyd mai un pryder a ddaeth i'r amlwg yn yr arolwg oedd nad oedd posib i staff gyfrannu trwy'r Gymraeg bob amser mewn cyfarfodydd allanol rhithiol a oedd wedi eu trefnu gan sefydliadau eraill oherwydd diffyg defnyddio technoleg sy'n galluogi defnydd rhwydd o'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Eglurwyd nad oedd pob sefydliad allanol yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol gyda rhai yn amharod i ddefnyddio Zoom oherwydd pryderon diogelwch.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Ei bod yn ofynnol ar gyrff cyhoeddus yn Gymru i ddarparu cyfleoedd Cyfieithu mewn cyfarfodydd - bod darpariaeth ar gael i wneud hyn - angen tynnu sylw'r Comisiynydd Iaith at y broblem
- Awgrym i gynnal cwis i hybu cyfleodd i ymarfer siarad Cymraeg
- Byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth am y nifer sydd wedi mynychu / cyfranogi digwyddiadau ar-lein.
- Rhoi pwysau ac ymgyrchu ar Microsoft i roi adnodd cyfieithu ar y pryd i mewn i Teams (sydd yn cael ei ffafrio gan Gynghorau eraill)
- Y Gymraeg yn datblygu fel cyfrwng cyfoes, modern mewn technoleg ac yn cael ei ddefnyddio ymysg yr ifanc - angen manteisio ar hyn
- Angen sicrwydd bod y gwasanaeth 'Tracio ac Olrhain' ar gael yn y Gymraeg

Mewn ymateb i'r sylwadau, amlygwyd bod y Comisiynydd Iaith yn ymwybodol o'r rhwystrau ynglŷn â darparu cyfleoedd Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd. Amlygwyd bod is -grŵp cenedlaethol wedi ei sefydlu i geisio datrysiadau. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd yn rhannu ymarfer da gyda Chynghorau a Phartneriaethau i wella'r ddarpariaeth os nad ydynt yn cael defnyddio zoom. Cynigwyd rhoi diweddariad ar waith yr is-grŵp yn y cyfarfod nesaf

Mewn ymateb i gadw momentwm gyda gwersi Cymraeg, nodwyd bod 'Cynllun Cymraeg i Gefnogi' wedi ei sefydlu sydd yn llwyddiannus iawn.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynlluniau sirol Arfor a pharhad ymrwymiad y Llywodraeth i'r cynllun, adroddwyd bod y misoedd diwethaf mewn gwirionedd wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r cynllun gyda'r cynlluniau yn cael eu haddasu i gyd-fynd a'r sefyllfa. Adroddwyd na fydd ymrwymiad pellach gan y Llywodraeth ac y byddai'r Cynghorau yn cymryd perchnogaeth. Awgrymwyd cyflwyno diweddariad ar y sefyllfa yn y cyfarfod nesaf.

Diolchwyd am yr adroddiad ac i'r staff am addasu'r ddarpariaeth yn effeithiol iawn dros y cyfnod.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan ddatgan diolch i'r Swyddogion Iaith am eu holl waith dros y cyfnod**
- **Ysgrifennu llythyr at y Comisiynydd Iaith yn datgan pryder nad oes modd i staff Cyngor Gwynedd gyfrannu trwy'r Gymraeg bob amser mewn cyfarfodydd rhithiol a drefnir gan sefydliadau allanol oherwydd nad ydynt yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd rhithiol.**
- **Ysgrifennu llythyr at Gwmni Microsoft yn eu hannog i ddarparu cyfieithu ar y pryd i gyfrwng Teams**
- **Derbyn diweddariad ar waith yr Is grŵp Cenedlaethol sydd yn trafod materion technoleg gwybodaeth yn y cyfarfod nesaf**

## 8. SAFONAU'R GYMRAEG A PHOLISI IAITH Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith yn rhoi diweddariad bras ar y gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo dros y misoedd diwethaf yng nghyd-destun y Safonau Iaith a'r dyletswyddau adrodd. Amlygwyd bod y Gwasanaeth yn gyffredinol, yn parhau i lwyddo i gydymffurfio gyda gofynion y Safonau, ond bod rhai meysydd o bryder yn codi, gyda themâu pendant yn amlygu eu hunain sydd yn gosod meysydd gwaith penodol. Adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol wrth gysylltu gyda'r Comisiynydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i drafod pryderon ynghyd a'r rhwystrau wrth gomisiynu systemau ac apiau allanol. Ategwyd bod cynnal sgyrsiau agored yn datblygu dealltwriaeth a chydweithio da sydd yn cael effaith bositif wrth geisio dylanwadu ar gyrff allanol sydd ar brydiau yn anwybodus am statws yr iaith a gofynion y Safonau yng Nghymru - enghraifft o hyn yw'r templed asesiad effaith.

Cyfeiriwyd at yr heriau ynghyd a'r meysydd datblygol gan dynnu sylw at yr adroddiad sgiliau sydd yn mynegi bod canran gallu'r Gymraeg o fewn y Cyngor yn 'uchel iawn' gyda 99.1% yn cyrraedd gofynion y swydd. Tynnwyd sylw pellach at Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd Gymraeg 2019-20 - Cau'r Bwlch ac y byddai'r adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Aelodau drwy e-bost. Amlygwyd bod bwriad adolygu'r Polisi Iaith ym mis Ionawr gan nad oedd rhai cymalau yn ddigon cadarn mewn rhai meysydd. Nodwyd y byddai'r gwaith yn cael ei rannu i ddau gategori - newidiadau gweinyddol, sydd yn golygu man newidiadau i olygu geiriad, er mwyn gwneud gofynion yn fwy eglur, a newidiadau mawr / egwyddor sydd yn golygu'r angen i drafod a chael cytundeb i weithredu rhai cyd-destunau. Adroddwyd y byddai eitem yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf ar ddiwygiadau posib i'r Polisi.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Bod angen cyflwyno delwedd Gymreig ar draws y Cyngor
- Cais am adroddiad cwynion iaith - holiadur halenu wedi ei anfon allan i weithwyr Adran Priffyrdd yn uniaith Saesneg
- Bod defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn cael effaith ar y blynyddoedd cynnar - awgrym i ymchwilio i mewn i hyn

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chael 'default' Cymraeg ar wefannau cymdeithasol adroddwyd bod gwaith ymchwil ar ddefnydd y cyhoedd o'r wefan yn cael i wneud gyda thîm y we a'r uned gyfathrebu. Ategodd y r Aelod Cabinet bod hyn yn her dechnegol, ond bod nifer yr ymwelwyr i'r wefan sydd yn defnyddio Cymraeg yn galonogol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thempled asesu effaith nodwyd bod pob penderfyniad Cabinet yn gofyn am asesiad cydraddoldeb gydag iaith yn cael i gynnwys fel un elfen o'r asesiad hwn. Nodwyd bod Swyddfa'r Comisiynydd yn datblygu canllawiau fyddai'n edrych yn benodol ar rai meysydd i sicrhau cydymffurfiaeth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chyfeiriad medrusrwydd iaith a dyletswydd y sefydliad i gyrraedd y safon gyda chyfleoedd ar gael i hyrwyddo dysgu Cymraeg os nad yw'n ofynnol i'r swydd, nodwyd bod y safon yn cyrraedd ac yn pasio'r gofynion a bod cyfrifoldeb i warchod hyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 11:25am

**<u>CADEIRYDD</u>**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 Ionawr 2021** |
| **TEITL:** | **Rhaglen ARFOR** |
| **AWDUR:** | **Anwen Davies**<br><br>**Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar raglen ARFOR |

## 1. Cefndir

Yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, yn Chwefror 2019 cadarnhaodd Gweinidog yr Economi, Ken Skates AC, fod £2 filiwn o gyllideb ar gael i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Mae'r arian ar gael hyd at ddiwedd 2020/21.

Cafodd Bwrdd Rhaglen Arfor ei sefydlu yn cynnwys Arweinydd y pedair sir a sylwebyddion o Lywodraeth Cymru. Gofynnwyd i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer y pedair sir gan gydlynu'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd fod yn flaenoriaeth gan bob sir i gyfeirio mwyafrif y gyllideb i weithredu cynlluniau yn lleol, gan rannu'r gwersi a ddysgir er mwyn hysbysu cynlluniau pellach i'r dyfodol.

Cytunwyd i warchod peth o'r gyllideb ar gyfer llunio cynllun i ddatblygu'r economi a chreu swyddi yn ardal Arfor i'r dyfodol ac i gynnal rhai gweithgareddau peilot ar y cyd.

Roedd £466,250 ar gael i'w fuddsoddi yng Ngwynedd dros gyfnod o dwy flynedd ar weithgareddau fyddai yn arwain at greu swyddi newydd fydd, yn ei dro, yn cynnal yr iaith yn ein cymunedau.

Cafodd Grŵp Llywio Arfor Gwynedd ei sefydlu i adnabod pecyn o brosiectau arloesol i'w treialu dros y cyfnod sydd yn cyd-fynd â meini prawf y rhaglen..

Roedd y pecyn prosiectau yng Ngwynedd yn cynnwys:

- Cymorth i Fentro

- Gofod Gwneud a Gweithio
- Her Cymunedau Mentrus
- Llwyddo'n Lleol

## 2. Diweddariad Ionawr 2021

Cyflwynwyd y diweddariad isod i'r Pwyllgor Iaith yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2020. Bydd Rheolwr y rhaglen yn rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor yn y cyfarfod hwn ar y newidiadau sydd wedi eu gwneud i'r prosiectau ac hefyd ar y Cynllun Strategol traws-sirol a'r cynlluniau ar gyfer dilyniant ar ôl diwedd cyfnod ffurfiol y prosiect ym Mawrth 2021.

***Diweddariad Tachwedd 2020:***

Er gwaethaf pryderon ar gychwyn y cyfnod clo y byddai'n rhaid rhoi stop ar gynlluniau sirol Arfor, mae'r misoedd diwethaf mewn gwirionedd wedi bod yn gyfnod prysur iawn i'r cynllun.

### *2.1 Her Cymunedau Mentrus*

Roedd y grantiau eisoes wedi eu rhannu i 3 prosiect, Partneriaeth Ogwen, Canolfan Henblas a Menter y Plu, a phob un o'r rheiny yn parhau gyda'u cynlluniau neu eu haddasu i wynebu heriau'r pandemig. Mae prosiect Canolfan Henblas wedi ei gwblhau, ag byddwn yn creu stori ar hyn yn y wythnosau i ddod.

### *2.2 Cymorth i Fentro*

Eto, roedd pryder y byddai rhaid newid cyfeiriad gyda'r grant hwn, gyda'r pwysau i gynnal busnesau yn mynd yn gymaint os nad yn fwy na'r angen i roi hwb i fusnesau newydd yn y cyfnod hwn. Serch hynny, cadarnhawyd bod y busnesau hynny, megis Becws Islyn, oedd eisoes wedi derbyn llythyron cynnig yn parhau gyda'u cynlluniau, a pharhawyd i dderbyn ceisiadau ac i drafod prosiectau sefydlu ac ymestyn busnesau. Byddwn yn rhyddhau gwybodaeth am lwyddiannau busnes ym Mhen Llŷn sy'n gysylltiedig â Rhaglen ARFOR a Rhaglen Gwledig LEADER dros y misoedd nesaf.

Bu i'r panel gyfarfod 4 gwaith ers mis Ebrill i drafod ceisiadau a phenderfynwyd ceisio bod ychydig bach fwy hyblyg am y math o geisiadau oedd yn cael eu derbyn, a sicrhau cyfleoedd i bobl sefydlu busnesau a chael gwaith llawn amser, yn ogystal ag ehangu busnesau i gynnig cyfleoedd gwaith newydd. Roedd nifer ac ansawdd y ceisiadau a ddaeth i law yn galonogol iawn a dyrannwyd yr holl arian grant a oedd ar gael. Gan ein bod yn awyddus i helpu mwy o fusnesau gwnaed cais am arian ychwanegol gan y Cyngor i gefnogi'r prosiect. Mae cais hefyd wedi ei gyflwyno i'r Llywodraeth am arian cyfalaf fydd yn ein galluogi i ymestyn y gronfa.

Hyd at gychwyn y cyfnod clo, roedd y gronfa wedi derbyn dros 100 o ymholiadau cychwynnol, roedd tua 70 o fusnesau wedi mynd ymlaen i gyflwyno Ffurflen Datgan Diddordeb, 22 wedi gwneud cais ac 19 wedi derbyn cynnig. Mae'r nifer yma wrth gwrs wedi cynyddu erbyn hyn a byddwn yn rhoi diweddariad arall i'r Pwyllgor ddechrau'r flwyddyn.

### *2.3 Llwyddo'n Lleol 2050*

Hwn yw’r cynllun lle y bu’r newid mwyaf dros y cyfnod, ond mae ei lwyddiant wedi bod yn nodedig.  Y bwriad gwreiddiol oedd bod pobl ifanc yn cael cyfleoedd i fod yn ddylanwadwyr a’u partneru gyda chwmnïau lleol.  Oherwydd y cyfyngiadau, bu rhaid newid cyfeiriad yn llwyr gyda’r cynllun hwn, ac fe ail-lansiwyd y cynllun gan Fenter Môn, gyda’r pwyslais ar gynnig grant hwb i bobl ifanc i greu a gweithredu ar syniadau busnes.  Mae’r bobl ifanc wedi bod yn rhannu eu straeon ar y cyfryngau cymdeithasol.  Mae yna gynlluniau ar waith i ddatblygu Llwyddo’n Lleol 2050 dros bedair sir ARFOR.

***2.4 Ffiws***

Er bod y gofod ym Mhorthmadog wedi gorfod cau yn ystod y cyfnod clo, roedd yna fideos a gweithdai yn cael eu rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn dilyn ail agor y gofod rhoddwyd gwahoddiad i bobl fynychu sesiynau un i un.  Rydym yn edrych i ddatblygu'r syniad o ofod Ffiws ymhellach mewn ardaloedd eraill yng Ngwynedd dros y misoedd nesaf.

***2.5 Gwaith Trawsffiniol***

Mae Adroddiad Interim Cynllun Strategol ARFOR wedi ei gwblhau gan gwmni Wavehill gyda’r gwaith gwerthuso ar fin cychwyn. Mae’r gwaith o ymateb i’r adroddiad interim hefyd wedi cychwyn.  Bydd mwy o fanylion am hyn ar gael yn y flwyddyn newydd.  Yn ystod yr wythnosau nesaf byddwn yn lawnsio gwaith Bwrlwm ARFOR ac yn adnabod busnesau sy’n esiamplau da o ddefnyddio'r Gymraeg a sut allant ddylanwadu ar eraill. yn cael ei lansio yn y bythefnos nesaf.

## 3. Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor?

Gofynnir i’r Aelodau dderbyn diweddariad y swyddog a chynnig unrhyw sylwadau neu gwestiynau yn dilyn y cyflwyniad.

| CYFARFOD | PWYLLGOR IAITH |
|---|---|
| DYDDIAD | 28 Ionawr 2021 |
| TEITL | Adroddiad Adolygu Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) |
| PWRPAS | I ystyried cynnwys yr adroddiad cynnydd a chynnig sylwadau |
| AWDUR | Debbie Anne Williams Jones<br>Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |
| AELOD CABINET | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru (CSGA). Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.2 At hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi allweddol eraill ym maes y Gymraeg mewn Addysg, sef:

- Cymraeg 2050,
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)
- Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21
- Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

1.3 Yn ystod 2017-18, bu cyfnod ymgynghori ar Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ynghyd â'r Canllawiau drafft. Yn ddiweddar, derbyniwyd cadarnhad fod y Rheoliadau a osodwyd ar 5 Rhagfyr 2019 wedi eu diwygio, er mwyn ymestyn y dyddiad y daw'r CSGA newydd i rym yn sgil pandemig COVID-19: https://www.legislation.gov.uk/wsi/2020/1194/introduction/made Golyga hyn y bydd y CSGA newydd yn dod i rym ym Medi 2022 yn hytrach na Medi 2021, a bod yn rhaid i'r Awdurdod gyflwyno'u CSGA gerbron Gweinidogion Cymru erbyn 31 Ionawr 2022, yn hytrach na 2021.

1.4 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed 10 mlynedd yn eu CSGA sydd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.5 Am nawr, fodd bynnag, rydym yn parhau i weithredu ein CSGA 3 blynedd presennol, a bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno adroddiad adolygu blynyddol Gwynedd ar weithrediad ein CSGA cyfredol yn 2019-20.

## 2. EFFAITH Y PANDEMIG COVID-19 AR WEITHREDIAD CSGA GWYNEDD 2019-20

2.1 Yn sgil pandemig COVID-19, gwelwyd ysgolion ar draws Cymru yn cau ar 20 Mawrth 2020, gyda'r cwricwlwm wedi ei oedi, ac ysgolion yn cael eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus.

2.2 Yn sgil y ffaith fod ysgolion ar draws Cymru wedi cau, a'r cwricwlwm wedi ei oedi, yn ystod haf 2020 nid oedd modd cynnal asesiadau dysgwyr, ac ni gynhaliwyd arholiadau allanol megis TGAU a Safon Uwch yn ôl yr arfer.

2.3 O ganlyniad, nid oes data meintiol ar gael fel rhan o'r adroddiad adolygu blynyddol CSGA ar gyfer 2019-20, ac felly mae'r adroddiad a gyflwynir yn wahanol i'r arfer, ac yn seiliedig ar dempled diwygiedig a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.

## 3. ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL CSGA GWYNEDD 2019-20

2.1 Yn Atodiad 1, cyflwynir adroddiad adolygu blynyddol ar weithrediad CSGA Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2019-20.

2.2 Mae'r adroddiad adolygu blynyddol wedi ei chyflwyno ar ffurf gwahanol eleni yn sgil derbyn templed diwygiedig gan Lywodraeth Cymru. Caiff yr adolygiad blynyddol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y Pwyllgor Iaith hwn.

2.3 Er gwybodaeth a hwylustod, ceir copi o CSGA Gwynedd ar gyfer 2017-2020 drwy ddilyn y linc canlynol: CSGA Gwynedd

2.4 Er hwylustod hefyd, rhoddir diffiniad o 7 deilliant y CSGA isod:

| | |
|---|---|
| Deilliant 1: | Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Deilliant 2: | Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. |
| Deilliant 3: | Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Deilliant 4: | Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith. |
| Deilliant 5: | Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg. |
| Deilliant 6: | Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. |
| Deilliant 7: | Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) |

## 4. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- Gyflwyno unrhyw sylwadau ar gynnwys yr adroddiad adolygu blynyddol CSGA y bwriedir ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

| ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL<br>CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG<br><br>RHAGFYR 2020 | |
|---|---|
| **GOROLWG CYNLLUN CYFAN** | ***(Crynodeb byr yn unig)***<br><br>Bu 2019-20 yn flwyddyn tra gwahanol i'r disgwyl yn sgil pandemig COVID-19, ble gwelwyd y cwricwlwm yn cael ei oedi ac ysgolion yn cael eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a gweithwyr allweddol. O ganlyniad, prin yw'r data perfformiad sydd ar gael ar gyfer ateb deilliannau'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.<br><br>**Gweledigaeth:**<br>Ein gweledigaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.<br><br>**Nod:**<br>Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.<br><br>**DEILLIANT 1 a 2:**<br><br>Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, yn dilyn hynny rhoddir pwyslais ar ddwyieithrwydd a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Rydym yn ymwybodol fod y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Gwelir yr effaith yn fwyaf amlwg yn y sector cynradd yng Ngwynedd.<br><br>Mewn ymdrech i gynnal y Gymraeg mewn amgylchiadau anghyffredin yn ystod y cyfnod clo, bu i ysgolion Gwynedd ynghyd â'r Adran Addysg greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol mewn sefyllfa o ddysgu o bell. At hyn, comisiynodd yr Adran Addysg ymgynghorydd llawrydd i greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr yn ystod y cyfnod clo (ac yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg). |

**DEILLIANT 3 a DEILLIANT 4:**

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19 nid oedd modd sicrhau bod yr ysgolion uwchradd yn gweithredu i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a nifer y dysgwyr oedd yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019-20 gan y bu i'r cwricwlwm gael ei oedi, gyda'r ysgolion wedi eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus ynghyd â darparu addysg o bell.

At hyn, mewn rhai ardaloedd o Wynedd ceir heriau i Bolisi Iaith y sir a chyfrwng y ddarpariaeth yn arbennig yn CA4. Golyga hyn bod her sylweddol i rai ysgolion uwchradd felly i daro cydbwysedd rhwng cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol ar draws y cwricwlwm gan allu gwrthsefyll unrhyw her, ac ar yr un pryd sicrhau fod cyfrwng yr addysg ddwyieithog a ddarperir yn briodol o safbwynt sicrhau y bydd pob plentyn yn llwyddo i gyflawni ei botensial.

Rydym wedi arfogi pob ysgol yng Ngwynedd gyda manteision addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae taflenni pwrpasol wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn hysbysu rhieni o'r manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a gwybyddol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Er hyn, mae rhai dalgylchoedd yn parhau i brofi anawsterau o ran ceisio dwyn perswâd ar rieni o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithog.

**DEILLIANT 5:**

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau fod pob dysgwr yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11 oed, ac yn gallu manteisio'n llawn ar yr addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd hyd 16 oed ym Meirion Dwyfor a 18 oed yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn. O ganlyniad, mae maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd nac unrhyw sir arall yng Nghymru.

Yn sgil y cyfnod clo, nid oedd modd gweithredu ymrwymiadau hunan-arfarniadau'r ysgolion mewn ymateb i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd.

Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, yn ystod tymor yr Hydref, bu i'r ysgolion gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bu i rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd yn ystod Tymor y Gwanwyn 2020, ond rydym yn ymwybodol na lwyddodd clystyrau eraill i gwblhau gweithredu eu cynlluniau yn sgil y cyfnod clo.

**DEILLIANT 6:**
Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Yn ystod cyfnod clo, bu i'r Gwasanaeth ADYaCh gefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus drwy ymestyn allan, ynghyd â pharatoi adnoddau amrywiol (ac yn parhau i ddatblygu) ar gyfer rhieni, dysgwyr a staff ysgolion. Mae popeth ar gael ar wefan y gwasanaeth gan gynnwys adnoddau a gwybodaeth am iechyd a lles emosiynol. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth hyfforddiant amrywiol ar gyfer staff ysgolion (e.e. Rhaglen Tyfu Trwy'r Tymhorau ar gyfer Colled a Galar, Ymwybyddiaeth Ofalgar).

**DEILLIANT 7:**

Yn ystod Tymor yr Hydref, mae pob ysgol yn cwblhau'r Cyfrifiad Gweithlu Addysg i Lywodraeth Cymru, ac yng Ngwynedd rydym wedi bod yn hyrwyddo defnydd o hunan-asesiad o sgiliau iaith corfforaethol y Cyngor fel sail ar gyfer y Cyfrifiad, felly bydd gan bob pennaeth wybodaeth a data manwl am sgiliau iaith ei staff, fel bod modd iddynt gynllunio ymyrraethau penodol i gefnogi eu staff.

Ar sail data unigol pob ysgol o'r cyfrifiad, disgwylir i bob ysgol ymateb i'r data a chynllunio'n briodol gan sicrhau y bydd y gweithlu yn derbyn cefnogaeth er mwyn sicrhau bod eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn cwrdd â'r gofynion, ac yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn unol â Pholisi Iaith y sir.

## Deilliant 1: Mwy o ddysgwyr saith oed yn cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg

**DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL**
*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19, roedd amgylchiadau haf 2020 yn unigryw gan fod y cwricwlwm wedi ei oedi ac ysgolion wedi eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. O ganlyniad, nid oes data perfformiad ar gael mewn ymateb i ddeilliant 1 o'r CSGA.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DEILLIANT 1:** | **Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **MESURYDD:** | **% dysgwyr sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen** | | |
| **TARGED:** | **99.2%** | **PERFFORMIAD 2019-20** | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 |

## GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

*(rhestrwch y camau gweithredu bwriedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddaru/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)*

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, yn sgil COVID-19, nid oes data perfformiad y gellir adrodd arno eleni.

Yn 2017-18, gwnaed defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn Iaith a Mathemateg o'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesu. Er bod cynnydd yn % y dysgwyr a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gwelwyd gostyngiad yn % dysgwyr y Cyfnod Sylfaen enillodd Ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (lefel 2+/Deilliant 5). O ganlyniad, mae GwE bellach yn bwriadu canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn er mwyn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd deilliannau uwch erbyn i'r dysgwyr gyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Er mwyn cefnogi dysgwyr i gyrraedd y deilliannau uwch yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r Adran Addysg o'r farn y byddai darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen o fudd i weithlu ein hysgolion, yn athrawon a chymorthyddion, gan y cymerir yn ganiataol yn rhy aml fod gweithlu ein hysgolion yn ymwybodol o elfennau addysg drochi, er nad ydyw'n hanesyddol wedi bod yn rhan o ddarpariaeth hyfforddiant Adrannau Addysg Prifysgolion ar gyfer darpar athrawon.

## CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

**HYFFORDDIANT EGWYDDORION TROCHI YN Y CYFNOD SYLFAEN**

Er mwyn cefnogi dysgwyr i gyrraedd y deilliannau uwch yn y Cyfnod Sylfaen, comisiynodd yr Adran Addysg ymgynghorydd llawrydd i gynlluno a darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen i weithlu ein hysgolion, yn athrawon a chymorthyddion. Manteisiodd nifer o glystyrau ar yr hyfforddiant hwn jyst cyn y cyfnod clo, ac roedd adborth yr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn.

**MANTEISION DWYIEITHRWYDD**

Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi eu harfogi o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae taflenni pwrpasol wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn hysbysu rhieni o'r manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a gwybyddol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

**YMATEB I'R CYFNOD CLO**

Rydym yn ymwybodol fod y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Gwelir yr effaith yn fwyaf amlwg yn y sector cynradd yng Ngwynedd.

Mewn ymdrech i gynnal y Gymraeg mewn amgylchiadau anghyffredin yn ystod y cyfnod clo, bu i ysgolion Gwynedd ynghyd â'r Adran Addysg drwy gyfrwng Cydlynydd y Siarter Iaith arallgyfeirio eu cefnogaeth i'r iaith drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr adnoddau a luniwyd ar gyfer cefnogi'r dysgwyr i ddysgu o bell yn ystod y cyfnod clo, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu a chynnal eu sgiliau Llafaredd. Yn ogystal, bu i'r Cydlynydd greu adnoddau dysgu o bell i atgyfnerthu defnydd o'r iaith lafar ymysg dysgwyr oedran cynradd.

At hyn, comisiynodd yr Adran Addysg ymgynghorydd llawrydd i greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr yn ystod y cyfnod clo (ac yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).



## Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu medrau iaith wrth iddynt drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19, roedd amgylchiadau haf 2020 yn unigryw gan fod y cwricwlwm wedi ei oedi ac ysgolion wedi eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. O ganlyniad, nid oes data perfformiad ar gael mewn ymateb i ddeilliant 2 o'r CSGA.

| DEILLIANT 2: | Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd | | |
|---|---|---|---|
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)** | | |
| **TARGED:** | **86.2%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 |

**GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO**
*(rhestrwch y camau gweithredu bwriedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddaru/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)*

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall.

Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau gan yr Awdurdod am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Maent yn ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd i drafod materion yn ymwneud â dilyniant CA2 a CA3, gan gynnwys tracio dysgwyr unigol yn ôl y carfanau iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei lle o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch, gan sicrhau bod dysgwyr sydd wedi ennill Lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 7, ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3.

Yn sgil sefydlu gwaelodlin o gyfrwng y ddarpariaeth, trafodwyd cyfrwng y ddarpariaeth a thargedau penodol gyda phob ysgol uwchradd er mwyn cynyddu:

- Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5
- Nifer/% dysgwyr sydd yn astudio ystod o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn:
  - CA3
  - CA4
  - CA5

Nod Canolfannau Iaith Gwynedd yw darparu cwrs dwys yn y Gymraeg i fewnfudwyr er mwyn eu galluogi i ymdoddi i'r gymdeithas ddwyieithog a chyfranogi'n llawn o brofiadau addysg ddwyieithog. Mae'r ddarpariaeth hon yn greiddiol i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd i weithredu'r Polisi Iaith.

Yn sgil toriad yn y Grant Gwella Addysg sydd yn cyllido Canolfannau Iaith Gwynedd, yn ystod 2018-19, bu ymgynghori ar strwythur staffio amgen ar gyfer cynnal gwasanaeth y Canolfannau Iaith i'r dyfodol. Ar 2 Ebrill 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu'r canlynol:

- Diddymu lwfans CAD i athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

- Gweithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro: disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod o flwyddyn, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

- Er mwyn prynu amser i ystyried canlyniadau'r peilot, cymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwlch fydd yn parhau i fodoli ar ôl gweithredu ar (ii) uchod hyd nes y bydd casgliadau'r peilot yn wybyddus.

Yn sgil penderfyniad y Cabinet, o Fedi 2019, bu'r Adran Addysg yn gweithredu cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla o strwythur staffio o athro a chymhorthydd, gan gynnal ymchwil i fesur effaith y peilot ar gynnydd ieithyddol y plant.

## CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19 nid oedd modd sicrhau bod yr ysgolion uwchradd yn gweithredu i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a nifer y dysgwyr oedd yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019-20 gan y bu i'r cwricwlwm gael ei oedi, gyda'r ysgolion wedi eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus ynghyd â darparu addysg o bell.

**CANOLFANNAU IAITH**

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19 nid oedd modd parhau i fesur effaith gweithrediad y cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla am y tro, gan y gorfu i ddarpariaethau'r Canolfannau Iaith esblygu i ddarparu cynhaliaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid drwy ddysgu cyfunol, sef sesiynau dysgu byw drwy TEAMS ynghyd â gwaith ar Google Classrooms a chynhaliaeth dydd i ddydd gan yr ysgolion.

Rydym yn cydnabod nad yw'r dull hwn o drochi hwyrddyfodiaid yn debygol o sicrhau yr un canlyniad i'r dysgwyr a phetaent yn mynychu'r Canolfannau Iaith gan nad oes modd i'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr fod mor ddwys. Ond dyma'r unig gyfrwng y gellir darparu'r gynhaliaeth yn ystod y cyfnod clo.

Yn sgil y ffaith fod y pandemig wedi gorfodi'r Canolfannau Iaith i weithredu mewn ffordd wahanol, mae'r defnydd o dechnoleg wedi agor y drws i gyfleoedd i ail-edrych ar y ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd, a bwriedir rhoi sylw i hynny mewn cydweithrediad â staff y Canolfannau Iaith yn 2020-21.

**YMATEB I'R CYFNOD CLO**

Rydym yn ymwybodol fod y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Gwelir yr effaith yn fwyaf amlwg yn y sector cynradd yng Ngwynedd.

Mewn ymdrech i gynnal y Gymraeg mewn amgylchiadau anghyffredin yn ystod y cyfnod clo, bu i ysgolion Gwynedd ynghyd â'r Adran Addysg drwy gyfrwng Cydlynydd y Siarter Iaith arallgyfeirio eu cefnogaeth i'r iaith drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr adnoddau a luniwyd ar gyfer cefnogi'r dysgwyr i ddysgu o bell yn ystod y cyfnod clo, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu a chynnal eu sgiliau Llafaredd. Yn ogystal, bu i'r Cydlynydd greu adnoddau dysgu o bell i atgyfnerthu defnydd o'r iaith lafar ymysg dysgwyr oedran cynradd.

**RHAGLEN CYFLYMU'R DYSGU**

Yn sgil pryderon ysgolion Gwynedd am effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu, rydym fel Adran wedi annog ein hysgolion i gynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth o fewn eu Rhaglenni Cyflymu'r Dysgu ar gyfer 2020-21 os ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny.

**CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG**

Bydd cefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn parhau, ac yn ystod tymor yr Hydref bwriedir i'r ysgolion ddod ynghyd eto i gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Byddwn fel Adran yn annog ein hysgolion i geisio sicrhau fod eu cynlluniau clwstwr yn ceisio ymateb i sefyllfa'r Gymraeg yn y clwstwr yn sgil y cyfnod clo.

**GRWPIAU YMYRRAETH**

Yn sgil effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu bwriedir i Gydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r ysgolion uwchradd yn ystod 2020-21, drwy gynnal grwpiau ymyrraeth bychan i gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol gyda'r Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo ar eu hyder a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd rhai o'r grwpiau ymyrraeth hyn yn targedu dysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 i fagu hyder er mwyn eu galluogi i ymgyfarwyddo'n ôl gyda'r gyfundrefn addysg a'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y cwricwlwm.

## Deilliant 3: Mwy o ddysgwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau trwy gyfrwng y Gymraeg

## Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu yn y gwaith

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19, roedd amgylchiadau haf 2020 yn unigryw gan na gynhaliwyd arholiadau allanol TGAU na Safon Uwch. O ganlyniad, nid oes data perfformiad ar gael mewn ymateb i ddeilliannau 3 a 4 o'r CSGA.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DEILLIANT 3:** | **Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **DEILLIANT 4:** | **Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion colegau a dysgu yn seiliedig ar waith** | | |
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **TARGED:** | **86.2%** | **PERFFORMIAD 2019-20** | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 |
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **TARGED:** | **73.3%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 |
| - | | | |

## GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

*(rhestrwch y camau gweithredu bwriedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddaru/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)*

Yn sgil sefydlu gwaelodlin o gyfrwng y ddarpariaeth, trafodwyd cyfrwng y ddarpariaeth a thargedau penodol gyda phob ysgol uwchradd er mwyn cynyddu:

- Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5
- Nifer/% dysgwyr sydd yn astudio ystod o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn:
  - CA3
  - CA4
  - CA5

## CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

Yn sgil y cyfnod clo a COVID-19 nid oedd modd sicrhau bod yr ysgolion uwchradd yn gweithredu i sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a nifer y dysgwyr oedd yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2019-20 gan y bu i'r cwricwlwm gael ei oedi, gyda'r ysgolion wedi eu hail-bwrpasu i ddarparu gofal i blant gweithwyr allweddol a phlant bregus ynghyd â darparu addysg o bell.

At hyn, mewn rhai ardaloedd o Wynedd ceir heriau i Bolisi Iaith y sir a chyfrwng y ddarpariaeth yn arbennig yn CA4. Golyga hyn bod her sylweddol i rai ysgolion uwchradd felly i daro cydbwysedd rhwng cynnal y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol ar draws y cwricwlwm gan allu gwrthsefyll unrhyw her, ac ar yr un pryd sicrhau fod cyfrwng yr addysg ddwyieithog a ddarperir yn briodol o safbwynt sicrhau y bydd pob plentyn yn llwyddo i gyflawni ei botensial.

Rydym wedi arfogi pob ysgol yng Ngwynedd gyda manteision addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae taflenni pwrpasol wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn hysbysu rhieni o'r manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a gwybyddol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd. Er hyn, mae rhai dalgylchoedd yn parhau i brofi anawsterau o ran ceisio dwyn perswâd ar rieni o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithog.

Fel rhan o gynlluniau'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer 21ain Ganrif sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd unrhyw gynnig statudol yn ddarostyngedig i Asesiad Effaith Ieithyddol, er mai yr un yw nod y Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion Gwynedd.

Dyma gynlluniau a'r gyfer Band A a Band B o'r Rhaglen sydd eisoes yn weithredol yng Ngwynedd:

- Ysgol Godre'r Berwyn
- Ysgol y Garnedd, Bangor
- Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor
- Ysgol Treferthyr, Cricieth

Ar wahân i Ysgol Godre'r Berwyn (Medi 2019) ac Ysgol y Garnedd (Hydref 2020) sydd bellach wedi agor, bydd yr holl gynlluniau eraill yn parhau'n weithredol yn 2020-21.

Ar 10 Mawrth 2020, cyflwynwyd adroddiad gerbron Cabinet Cyngor Gwynedd yn gofyn am ganiatâd i gynnal 'y sgwrs fawr' am y ddarpariaeth ôl-16 yn Arfon. Fel sail i'r penderfyniad hwn, cyflwynwyd Adroddiad Trosolwg Ôl-16 i'r Cabinet, ynghyd â chyhoeddi Adroddiad Iaith Cyf 'Asesiad o'r Ddarpariaeth Addysg Ôl-16 bresennol yng Ngwynedd', gyda chyfrwng y ddarpariaeth wedi ei gynnwys fel rhan o friff y gwaith. Yn dilyn Cabinet, 10 Mawrth 2020, aethpwyd i gyfnod clo yn sgil Covid-19, ac felly bu oedi ar weithredu ymhellach a chynnal 'y sgwrs fawr' fel y bwriadwyd yn nhymor yr haf 2020.

O safbwynt yr Asesiadau Effaith Ieithyddol, rydym yn ymwybodol y bydd data'r gwe iaith ar gyfer 2019-20 yn anghyflawn yn sgil y cyfnod clo a COVID-19. Defnyddir data'r gwe iaith yn gyson mewn Asesiadau Effaith Ieithyddol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn mesur sefyllfa bywiogrwydd y Gymraeg mewn ysgolion, a chydnabyddir na fydd mod gwneud hynny gyda data 2019-20 gan ei fod yn anghyflawn.

Yn ystod y cyfnod clo, bu i ysgolion Gwynedd ynghyd â'r Adran Addysg drwy gyfrwng Cydlynydd y Siarter Iaith a Chydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal, bu i'r Cydlynwyr greu adnoddau dysgu o bell i atgyfnerthu defnydd o'r iaith lafar ymysg dysgwyr oedran cynradd ac uwchradd, a chomisiynywd ymgynghorydd llawrydd i greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr (yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).

## Deilliant 5: Mwy o fyfyrwyr yn meddu ar fedrau Cymraeg lefel uwch

## DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau fod pob dysgwr yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11 oed, ac yn gallu manteisio'n llawn ar yr addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd hyd 16 oed ym Meirion Dwyfor a 18 oed yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala.

O ganlyniad, mae maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd.

| **DEILLIANT 5:** | **Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **MESURYDD:** | **% y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf** | | |
| **TARGED:** | **78.1%** | **PERFFORMIAD 2019-20** | **76.4%** |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) (Lefel 2+/Deilliant 5+) | | |
| PERFFORMIAD: | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 | | |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg | | |
| PERFFORMIAD: | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 | | |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg | | |
| PERFFORMIAD: | Dim data perfformiad ar gael yn sgil y cyfnod clo yn sgil COVID-19 | | |
| Er bod modd adrodd ar berfformiad 2019-20 o safbwynt y mesurydd, o ystyried amgylchiadau unigryw haf 2020, nid yw'n ystyrlon dwyn cymhariaeth rhwng perfformiad 2020 â'r blynyddoedd blaenorol. | | | |

## GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

*(rhestrwch y camau gweithredu bwriedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddaru/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)*

Mae Gwynedd wedi arwain ar waith arloesol i ddylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg yn yr ysgolion cynradd drwy gyfrwng y Siarter Iaith Gymraeg. Pwrpas y Siarter yw cael y plant i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, gan sicrhau cyfranogiad gan bob aelod o gymuned yr ysgol i wireddu'r nod. Mae'r Adran hefyd wedi arwain a chefnogi Llywodraeth Cymru i ledaenu'r Siarter Iaith yn genedlaethol.

Gwynedd yw'r unig sir ar draws Cymru sydd wedi llunio Strategaeth Iaith Uwchradd fel dilyniant i'r Siarter Iaith, ac roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd fel ei gilydd yn awyddus i weld dilyniant sicr i'r Siarter Iaith. Un gwahaniaeth sylfaenol yng nghyd-destun y Strategaeth Iaith Uwchradd yw ei fod yn ymwneud â hyrwyddo defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg.

Cychwynnodd y flwyddyn addysgol yn ôl yr arfer o safbwynt y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith, gyda'r ysgolion cynradd ac uwchradd yn cwblhau'r gwe iaith yn ystod yr Hydref er mwyn gosod gwaelodlin o ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg yn union fel y blynyddoedd blaenorol. Ar yr un pryd, bu i'r ysgolion ganolbwyntio ar eu hunan-arfarniad Siarter Iaith a hunan-arfarniad Strategaeth Iaith Uwchradd, gan adnabod gweithredoedd penodol i annog defnydd ffurfiol (o safbwynt yr uwchradd yn benodol) ac anffurfiol dysgwyr o'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn.

O safbwynt y Strategaeth Iaith Uwchradd un o'r ymyraethau ar gyfer 2019-20 oedd parhau i gydweithio ar gyfrwng iaith y ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yn yr ysgolion uwchradd.

Roedd bwriad i ysgolion cynradd ac uwchradd Gwynedd lunio cynllun gweithredu ar gyfer eu clwstwr oedd yn ymateb i anghenion a chyd-destun ieithyddol yr ysgolion a'r cymunedau o'u hamgylch er mwyn codi statws a chynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

## CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

**SIARTER IAITH/STRATEGAETH IAITH UWCHRADD:**

Yn sgil y cyfnod clo, nid oedd modd gweithredu ymrwymiadau hunan-arfarniadau'r ysgolion mewn ymateb i'r Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Yn yr un modd, nid oedd modd ail-gynnal y gwe iaith i fesur effaith ymyrraethau'r flwyddyn ar ddefnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, gan fod holiadur y gwe iaith wedi ei seilio ar gwestiynau sydd yn ymwneud â sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol dysgwyr yn yr ysgol. O ganlyniad o safbwynt yr ysgolion cynradd nid oedd modd gwobrwyo'r ysgolion gyda gwobr aur, arian ac efydd y Siarter Iaith fel yr arfer ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Yn sgil y ffaith y cwblheir y gwe iaith yn gyson gan ein hysgolion ers nifer o flynyddoedd, rydym yn ymwybodol y bydd data 2019-20 yn anghyflawn yn sgil y cyfnod clo a COVID-19. Defnyddir data'r gwe iaith yn gyson mewn Asesiadau Effaith Ieithyddol yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion er mwyn mesur sefyllfa bywiogrwydd y Gymraeg mewn ysgolion, a chydnabyddir na fydd mod gwneud hynny gyda data 2019-20 gan ei fod yn anghyflawn.

**CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG**

Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, yn ystod tymor yr Hydref, bu i'r ysgolion gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Bu i

rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd yn ystod Tymor y Gwanwyn 2020, ond rydym yn ymwybodol na lwyddodd clystyrau eraill i gwblhau gweithredu eu cynlluniau yn sgil y cyfnod clo.

**YMATEB I'R CYFNOD CLO**

Rydym yn ymwybodol fod y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Gwelir yr effaith yn fwyaf amlwg yn y sector cynradd yng Ngwynedd.

Mewn ymdrech i gynnal y Gymraeg mewn amgylchiadau anghyffredin yn ystod y cyfnod clo, bu i ysgolion Gwynedd ynghyd â'r Adran Addysg drwy gyfrwng Cydlynydd y Siarter Iaith a Chydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd arallgyfeirio eu cefnogaeth i'r iaith drwy greu adnoddau addysgol i gefnogi'r Gymraeg yn sirol, rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr adnoddau a luniwyd ar gyfer cefnogi'r dysgwyr i ddysgu o bell yn ystod y cyfnod clo, gan ganolbwyntio'n bennaf ar hybu'u a chynnal eu sgiliau Llafaredd. Yn ogystal, bu i'r Cydlynwyr greu adnoddau dysgu o bell i atgyfnerthu defnydd o'r iaith lafar ymysg dysgwyr oedran cynradd ac uwchradd, a chomisiynywd ymgynghorydd llawrydd i greu clipiau fideo ar gyfer y Cyfnod Sylfaen fel adnodd i annog defnydd o'r iaith lafar i ddysgwyr (yn arbennig o aelwydydd di-Gymraeg).

**RHAGLEN CYFLYMU'R DYSGU**

Yn sgil pryderon ysgolion Gwynedd am effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu, rydym fel Adran wedi annog ein hysgolion i gynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth o fewn eu Rhaglenni Cyflymu'r Dysgu ar gyfer 2020-21 os ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny.

**CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG**

Bydd cefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn parhau yn 2020-21, ac yn ystod tymor yr Hydref bwriedir i'r ysgolion ddod ynghyd eto i gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg. Byddwn fel Adran yn annog ein hysgolion i geisio sicrhau fod eu cynlluniau clwstwr yn ceisio ymateb i sefyllfa'r Gymraeg yn y clwstwr yn sgil y cyfnod clo.

**GRWPIAU YMYRRAETH**

Yn sgil effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu bwriedir i Gydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r ysgolion uwchradd yn ystod 2020-21, drwy gynnal grwpiau ymyrraeth bychan i

gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol gyda'r Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo ar eu hyder a'u parodrwydd i ddefnyddio'r iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd rhai o'r grwpiau ymyrraeth hyn yn targedu dysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 i fagu hyder er mwyn eu galluogi i ymgyfarwyddo'n ôl gyda'r gyfundrefn addysg a'r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y cwricwlwm.

## Deilliant 6: Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gallu darparu yr holl ystod o wasanaethau i'n dysgwyr mwyaf bregus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn sgil mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin sydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

### GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

Yn sgil mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin fydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, bydd monitro, asesu'r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r ddarpariaeth, a byddwn yn parhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n gwbl ddwyieithog.

Mae'r gwasanaeth ADYaCh hefyd wedi bod yn parhau i baratoi'r gwasanaeth ar gyfer trosglwyddo i'r Ddeddfwriaeth newydd yn Medi 21.

Yn sgil y cyfnod clo, ar gyfer 2020-21, rydym wedi adnabod y gagendor addysg a lles fel risg, a bydd y gwasanaeth ADY a CH yn darparu arweiniad i'r ysgolion o ran strategaethau a darpariaethau addas ar gyfer targedu'r gagendor, ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Bydd y gwasanaeth yn darparu mewnbwn a chefnogaeth ar gyfer disgyblion gyda ADYaCh sydd yn peri mwy o anawsterau yn sgil y cyfnodau clo.

### CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

Yn ystod cyfnod clo, bu i'r Gwasanaeth ADYaCh gefnogi'r dysgwyr mwyaf bregus drwy ymestyn allan, ynghyd â pharatoi adnoddau amrywiol (ac yn parhau i ddatblygu) ar gyfer rhieni, dysgwyr a staff ysgolion. Mae popeth ar gael ar wefan y gwasanaeth gan gynnwys adnoddau a gwybodaeth am iechyd a lles emosiynol. Yn ogystal, mae gan y gwasanaeth hyfforddiant amrywiol ar gyfer staff ysgolion (e.e. Rhaglen Tyfu Trwy'r Tymhorau ar gyfer Colled a Galar, Ymwybyddiaeth Ofalgar).

Yn sgil y cyfnod clo, ar gyfer 2020-21, rydym wedi adnabod y gagendor addysg a lles fel risg, a bydd y gwasanaeth ADY a CH yn darparu arweiniad i'r ysgolion o ran strategaethau a darpariaethau addas ar gyfer targedu'r gagendor, ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion. Bydd y gwasanaeth yn darparu mewnbwn a chefnogaeth ar gyfer disgyblion gyda ADYaCh sydd yn peri mwy o anawsterau yn sgil y cyfnodau clo.

## Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

### DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

*(lle bo modd, nodwch a yw data'n dangos cynnydd % / gostyngiad ers y cyfnod adrodd blaenorol)*

Yn ystod Tymor yr Hydref, mae pob ysgol yn cwblhau'r Cyfrifiad Gweithlu Addysg i Lywodraeth Cymru, ac yng Ngwynedd rydym wedi bod yn hyrwyddo defnydd o hunan-asesiad o sgiliau iaith corfforaethol y Cyngor fel sail ar gyfer y Cyfrifiad, felly bydd gan bob pennaeth wybodaeth a data manwl am sgiliau iaith ei staff, fel bod modd iddynt gynllunio ymyrraethau penodol i gefnogi eu staff.

Dyma ddata o'r hunan-asesiad yng nghyd-destun Ysgolion

| Adran | Ysgolion |
|---|---|
| Nifer wedi cwblhau hunanasesiad* | **949** |
| Dim sgiliau | 11 |
| Mynediad | 51 |
| Sylfaen | 20 |
| Canolradd | 39 |
| Uwch | 194 |

| | |
|---|---|
| Hyfedredd | 633 |

## GWEITHGAREDDAU WEDI'U CYNLLUNIO

*(rhestrwch y camau gweithredu bwriedig a defnyddiwch yr adran cynnydd/diweddaru/pwysau i ddarparu rhagor o wybodaeth)*

Ar sail data unigol pob ysgol o'r cyfrifiad, disgwylir i bob ysgol ymateb i'r data a chynllunio'n briodol gan sicrhau y bydd y gweithlu yn derbyn cefnogaeth er mwyn sicrhau bod eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg yn cwrdd â'r gofynion, ac yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog yn unol â Pholisi Iaith y sir.

**CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG**

Drwy gefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol, yn ystod tymor yr Hydref, bu i'r ysgolion gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) i gryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg.

Rydym hefyd fel Adran a Chyngor yn darparu hyfforddiant drwy gyfrwng darpariaethau Cymraeg i Oedolion i aelodau o'r gweithlu uwchradd sydd angen dysgu'r Gymraeg, yn sgil methiant i benodi unigolion oedd yn meddu ar sgiliau yn y Gymraeg yn unol â gofynion EUswyddi. Lleiafrif bychan iawn o blith gweithlu ein hysgolion yw'r rhain, ac ar y cyfan maent yn nodweddiadol o rai ardaloedd penodol o'r sir megis de Meirionnydd a Bangor.

## CYNNYDD / CRYNODEB / HERIAU

*(Defnyddiwch yr adran hon i adrodd ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020 yn ogystal ag amlygu lle mae Covid-19 wedi effeithio ar gynnydd)*

**CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG**

Bu i rai clystyrau lwyddo i weithredu eu cynlluniau fel y bwriadwyd yn ystod Tymor y Gwanwyn 2020, ond rydym yn ymwybodol na lwyddodd clystyrau eraill i gwblhau gweithredu eu cynlluniau yn sgil y cyfnod clo.

Bydd cefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn parhau, ac yn ystod 2020-21 bwriedir i'r ysgolion ddod ynghyd eto i gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg.

## BLAEN OLWG / CERRIG MILLTIR

*Defnyddiwch yr adran hon i nodi eich blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod*

**YMATEB I EFFAITH Y CYFNOD CLO**

Rydym yn ymwybodol fod y cyfnod clo wedi cael effaith sylweddol ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu. Gwelir yr effaith yn fwyaf amlwg yn y sector cynradd yng Ngwynedd. O ganlyniad, ar gyfer 2020-21 rydym o'r farn bod angen ail-edrych ar ein blaenoriaethau ym maes y Gymraeg yn ei gyfanrwydd, gan adennill tir a gollwyd a sicrhau fod sylfaen y Gymraeg yn gadarn ymysg ein plant a'n pobl ifanc unwaith eto.

**RHAGLEN CYFLYMU'R DYSGU**

Yn sgil pryderon ysgolion Gwynedd am effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu, rydym fel Adran wedi annog ein hysgolion i gynnwys y Gymraeg fel blaenoriaeth o fewn eu Rhaglenni Cyflymu'r Dysgu ar gyfer 2020-21 os ydynt o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny.

**CANOLFANNAU IAITH**

Bydd y Canolfannau Iaith yn debygol o barhau i ddarparu cynhaliaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid drwy ddysgu cyfunol, sef sesiynau dysgu byw drwy TEAMS ynghyd â gwaith ar Google Classrooms a chynhaliaeth dydd i ddydd gan yr ysgolion yn 2020-21 os bydd sefyllfa'r pandemig yn parhau.

Rydym yn cydnabod nad yw'r dull hwn o drochi hwyrddyfodiaid yn debygol o sicrhau yr un canlyniad i'r dysgwyr a phetaent yn mynychu'r Canolfannau Iaith gan nad oes modd i'r ddarpariaeth ar gyfer y dysgwyr fod mor ddwys. Fodd bynnag, yn sgil y ffaith fod y pandemig wedi gorfodi'r Canolfannau Iaith i weithredu mewn ffordd wahanol, mae'r defnydd o dechnoleg wedi

<table>
<tr>
<td></td>
<td>agor y drws i gyfleoedd i ail-edrych ar y ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd, a bwriedir rhoi sylw i hynny mewn cydweithrediad â staff y Canolfannau Iaith yn 2020-21.<br><br>CYNLLUNIAU CLWSTWR Y GYMRAEG<br><br>Bydd cefnogaeth cyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy’r consortia rhanbarthol yn parhau, ac yn ystod 2020-21 bwriedir i’r ysgolion ddod ynghyd eto i gyd-gynllunio ymyrraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o’r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg.<br><br>GRWPIAU YMYRRAETH<br>Yn sgil effaith sylweddol y cyfnod clo ar hyder, defnydd a hyfedredd dysgwyr yn y Gymraeg, yn cynnwys sgiliau siarad, darllen ac ysgrifennu bwriedir i Gydlynydd y Strategaeth Iaith Uwchradd ddarparu cefnogaeth ymarferol i’r ysgolion uwchradd yn ystod 2020-21, drwy gynnal grwpiau ymyrraeth bychan i gefnogi dysgwyr sydd angen hwb ychwanegol gyda'r Gymraeg yn sgil effaith y cyfnod clo ar eu hyder a’u parodrwydd i ddefnyddio’r iaith ar lafar ac yn ysgrifenedig. Bydd rhai o’r grwpiau ymyrraeth hyn yn targedu dysgwyr blynyddoedd 10 ac 11 i fagu hyder er mwyn eu galluogi i ymgyfarwyddo’n ôl gyda’r gyfundrefn addysg a’r ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar draws y cwricwlwm.<br><br>ADYaCH<br>Yn sgil y cyfnod clo, ar gyfer 2020-21, rydym wedi adnabod y gagendor addysg a lles fel risg, a bydd y gwasanaeth ADY a CH yn darparu arweiniad i’r ysgolion o ran strategaethau a darpariaethau addas ar gyfer targedu’r gagendor, ar y cyd gyda’r Gwasanaeth Gwella Ysgolion.  Bydd y gwasanaeth yn darparu mewnbwn a chefnogaeth ar gyfer disgyblion gyda ADYaCh sydd yn peri mwy o anawsterau yn sgil y cyfnodau clo.</td>
</tr>
<tr>
<td>Awdur:<br><br>Cymeradwywr:<br><br>Dyddiad:</td>
<td>DAWilliams Jones<br>Debbie Anne Williams Jones (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg)<br><br><br>13 Ionawr 2021</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **28 Ionawr 2021** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br><br>**Ymgynghorydd Iaith** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor. |

**Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:**

Er gwaethaf yr amgylchiadau anodd dros y flwyddyn ddiwethaf, mae yn arwydd o lwyddiant penodol bod y Cyngor a'i staff wedi parhau i allu hybu defnydd o'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion. Oherwydd ymrwymiad ein staff, llwyddwyd i gyfathrebu newidiadau ac i addasu gweithgareddau heb amharu o gwbl ar gyfrwng iaith y gwasanaethau. Llwyddwyd hefyd i gynnig gwasanaethau newydd fel gwaith y Timau Gwydnwch Cymunedol a'r gwasanaeth Olrhain drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Cyfieithu mewn cyfarfodydd rhithiol

Mae Cyngor Gwynedd wedi arwain y gad ar sicrhau fod y ddarpariaeth pwyllgorau rhithiol sydd wedi bod yn cael ei gynnig hefyd yn cynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae cryn waith wedi ei wneud gan swyddogion o'r Cyngor yn cynorthwyo ein partneriaid ar y datblygiadau er mwyn annog eraill i sicrhau fod pwyllgorau a chyfarfodydd ar gael yn newis iaith y defnyddiwr. Yn ogystal, mae swyddogion o'r Cyngor ynghlwm â gwaith cenedlaethol i geisio perswadio Microsoft i gynnig darpariaeth cyfieithu ar y pryd yn Teams.

- Cynnydd yn nifer y staff sydd yn dysgu'r Gymraeg

Cynigiwyd llawer o wersi ar-lein yn sgîl y pandemig. Mae'r rhain wedi caniatáu i lawer mwy o staff rheng flaen, a fyddai wedi methu ymrwymo i wersi cymunedol/wyneb-i-wyneb dan amgylchiadau arferol, fanteisio ar wersi Cymraeg, a hynny mewn ffordd sy'n gweithio o gwmpas eu patrwm gwaith. Mae'r enghreifftiau isod yn dangos ymrwymiad y staff i ddatblygu eu Cymraeg er mwyn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i bobl Gwynedd, a chadw ethos Gymraeg y gweithle.

  - 11 o aelodau o staff Byw'n Iach wedi dilyn rhaglen o wersi Cymraeg o haf 2020 ymlaen. Mae stori am un o'r dysgwyr i'w weld yma: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Newyddion/Datganiadau-ir-wasg/Tachwedd-2020/Llwyddiant-Gwersi-Cymraeg-Ar-lein-i-staff-Cyngor-Gwynedd.aspx?utm_source=Twitter&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn

Hyn yn cyfrannu at sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu derbyn eu gwasanaeth yn y Gymraeg.

- Arweinydd Therapydd Galwedigaethol yn dangos ymrwymiad arbennig tuag at y Gymraeg trwy fynychu gwersi dros y flwyddyn ddiwethaf, ac yn cadw ethos Cymraeg y gwasanaeth. Prawf o hyn oedd iddo gyflwyno am y tro cyntaf yn Gymraeg mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn ddiweddar.
- Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) yn derbyn cefnogaeth 1:1 ar gyfer datblygu ei sgiliau Cymraeg. Yn sgîl hyn, mae'n barod wedi derbyn cydnabyddiaeth o fewn yr Adran a gan y Pennaeth am ei ymroddiad a'i gynnydd, ac yn defnyddio'i Gymraeg fwyfwy wrth gyfathrebu gyda staff ac yn y Tîm Rheoli.

**CWYNION ac YMHOLIADAU GAN GOMISIYNYDD Y GYMRAEG – YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH Â'R SAFONAU IAITH**

Derbyniwyd ymholiad ym mis Mawrth 2020 am gatalog ar-lein y gwasanaeth Llyfrgelloedd. Mae hwn yn gatalog allanol sydd yn cael ei ddefnyddio yn genedlaethol (system LMS), ac felly ddim dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor. Mae'r mater hwn yn dal ar waith, gan fod trafodaeth genedlaethol wedi ei chynnal ymysg rheolwyr llyfrgelloedd. Ni fydd modd gwneud newidiadau i'r system ar hyn o bryd gan fod newid cofnodion catalog yn broses hir, feichus, ond bydd y problemau yn cael eu hystyried wrth ail dendro yn y dyfodol.

Cafwyd ymholiad ar 12.03.20 am arwydd uniaith Saesneg oedd wedi ymddangos ger Castell Caernarfon. Wedi holi'r gwasanaeth, roeddynt yn ymwybodol o'r broblem ac yn adrodd bod yr arwydd anghywir wedi ei archebu drwy gamgymeriad ond eu bod yn disgwyl arwydd newydd. Roedd yr arwydd newydd wedi ei osod erbyn y dyddiad y derbyniwyd yr ymholiad.

Derbyniwyd ymholiad am arwydd ar y ffordd ym Mhwllheli. Roedd y Cyngor Tref yn awyddus i osod arwydd croeso, ac wedi cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd am fod y gwasanaeth Amgylchedd wedi gwrthod eu cais i osod yr arwydd. Mae hyn am fod y ddeddfwriaeth berthnasol yn nodi bod yn rhaid i "arwyddion ffordd" fod yn ddwyieithog. Roedd y cais gan y Cyngor Tref am arwydd swyddogol fyddai yn cynnwys symbolau twristiaeth ac ati, ac felly yn cael ei gyfrif fel arwydd ffordd – ac felly yn gorfod bod yn ddwyieithog.

**Ni chymerodd y Comisiynydd unrhyw gamau pellach yn dilyn yr ymholiadau uchod.**

**CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

| Adran | Nifer y Cwynion | Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o | Esboniad a chamau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| **Amgylchedd** | | Cwyn am ap parcio Pay by Phone, gan nad yw ar gael ar bob ffon yn y Gymraeg. | Wedi trafod gyda'r adran a chyda'r cwmni sydd yn gyfrifol am yr ap. Mae'r ap wedi ei ddatblygu mewn modd sydd yn defnyddio iaith ddewisol y ffon, ac felly mae modd cael yr ap yn Gymraeg wrth newid iaith y ffon. Yn anffodus, nid oes modd newid iaith ar bob ffon android, sydd yn golygu nad yw'r ap hwn ar gael i bawb.<br>Wedi gallu sicrhau bod pob neges sydd yn cael eu cynhyrchu yn awtomatig yn cael eu hanfon yn Gymraeg, ond nid oedd yn bosib cael yr ap i weithio i bawb yn Gymraeg gan y byddai hynny yn golygu ail-gomisiynu'r ap.<br>Mae nodyn atgoffa wedi ei anfon i staff am yr angen wrth gomisiynu a phrynu apiau, a systemau allanol ac yn argymell ymgynghori gyda'r gwasanaeth TG ac Iaith. |
| **Cyllid** | | Safon iaith mewn llythyr am Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol | Ymddiheuriad wedi anfon.<br><br>Y rheolwr wedi trafod y mater gyda'r swyddog. Templedi llythyrau newydd wrthi yn cael eu llunio, ac wedi atgoffa'r rheolwr hefyd am y gwasanaeth prawf ddarllen sydd yn cael ei gynnig gan y tîm cyfieithu ac sydd ar gael i unrhyw un sydd yn ansicr o ran sgiliau ysgrifenedig. |